

Gwasanaeth Cymraeg - Emynau dros yr Wasanaeth I Ied Gorfennaf.

Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw

(Pantymfedwen)

Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw,
tydi a roddaist imi flas ar fyw:
fe gydiaist ynof drwy dy Ysbryd Glân,
ni allaf tra bwyf byw ond canu'r gân;
'rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n parhau,
'rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu;
mae'r Haleliwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

Tydi yw haul fy nydd, O Grist y groes,
yr wyt yn harddu holl orwelion f'oes;
lle'r oedd cysgodion nos mae llif y wawr,
lle'r oeddwn gynt yn ddall 'rwy'n gweld yn awr;
mae golau imi yn dy Berson hael,
penllanw fy ngorfoledd yw dy gael;
mae'r Haleliwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

Tydi sy'n haeddu'r clod, ddihalog Un
mae ystyr bywyd ynot ti dy hun;
yr wyt yn llanw'r gwacter drwy dy air,
daw'r pell yn agos ynot, O Fab Mair;
mae melodïau'r cread er dy fwyn,
mi welaf dy ogoniant ar bob twyn;
mae'r Haleliwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

W. RHYS NICHOLAS, 1914-96 © Richard E. Huws

(Caneuon Ffydd: 791)

Mi glywaf dyner lais

Mi glywaf dyner lais
yn galw arnaf fi
i ddod a golchi 'meiau i gyd
yn afon Calfari.

*Arglwydd, dyma fi
ar dy alwad di,
canna f'enaidd yn y gwaed
a gaed ar Galfari.*

Yr Iesu sy'n fy ngwadd
i dderbyn gyda'i saint
ffydd, gobaith, cariad pur a hedd
a phob rhyw nefol fraint.

Yr Iesu sy'n cryfhau
o'm mewn ei waith drwy ras;
mae'n rhoddi nerth i'm henaidd gwan
i faeddu 'mhechod cas.

Gogoniant byth am drefn
y cymod a'r glanhad;
derbyniaf Iesu fel yr wyf
a chanaf am y gwaed.

LEWIS HARTSOUGH, 1828-
1919 cyf. IEUAN GWYLLT, 1822-
77
(Caneuon Ffydd 483)

Glân gerwbiaid a seraffiaid

Glân gerwbiaid a seraffiaid
fyrdd o gylch yr orsedd fry
mewn olynol seiniau dibaid
canant fawl eu Harglwydd cu:
“Llawn yw'r nefoedd o'th ogoniant,
llawn yw'r ddaear, dir a môr;
rhodder iti fythol foliant,
sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd lôr.”

Fyth y nef a chwydda'r moliant,
uwch yr etyb daear fyth:
“Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd,”
meddant,
“Dduw y lluoedd, Nêr di-lyth!
Llawn yw'r nefoedd o'th ogoniant,
llawn yw'r ddaear, dir a môr;
rhodder iti fythol foliant,
sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd lôr.”

Gyda'r seraff gôr i fyny,
gyda'r Eglwys lân i lawr,
uno wnawn fel hyn i ganu
anthem clod ein Harglwydd mawr:
“Llawn yw'r nefoedd o'th ogoniant,
llawn yw'r ddaear, dir a môr;
rhodder iti fythol foliant,
sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd lôr.”

RICHARD MANT, 1776-1848 cyf.
ALAFON (Owen Griffith Owen) ,
1847-1916
(Caneuon Ffydd 30)

Byddwch yn gystal i ymuno gyda ni ar gyfer coffi 'Zoom' ar ôl yr gwasanaeth